Tribiwnlys Addysg Cymru

Education Tribunal for Wales

Tribiwnlys Addysg Cymru

# Canllaw i ymgeiswyr ar lenwi'r ffurflen presenoldeb

### Ynghlun â’r canllaw hwn

Nod y canllaw hwn yw eich helpu i lenwi’r ffurflen bresenoldeb ar gyfer gwrandawiad gyda Tribiwnlys Addysg Cymru. Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni.

Clercod tribiwnlysoedd yw'r staff sy'n prosesu apeliadau a hawliadau. Maent yn ateb eich llythyrau a'ch galwadau ffôn. Dim ond cwestiynau am weinyddu eich achos y mae modd iddynt eu hateb. Ni allant roi cyngor cyfreithiol. Mae hyn yn golygu na allant roi eu barn, nac argymell a ddylech gymryd camau penodol.

Mae’r Gofrestr Gyhoeddiadau yn rhestr o’r holl ganllawiau a ffurflenni. Mae’r gofrestr ar gael ar ein gwefan.

### Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sy'n apelio i'r Tribiwnlys. Mae hyn yn cynnwys:

- plant a phobl ifanc dan 25 oed;
- rhieni plant o oedran ysgol gorfodol ac iau;
- cyfeillion achos; a
- chynrychiolwyr

### Dewis iaith

Mae'r Tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu’n Saesneg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a gawn yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi ein hymateb.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Cysylltwch â'r Tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon. Gallwch hefyd gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i'r Tribiwnlys yn Gymraeg neu’n Saesneg.

### Adnoddau gwybodaeth

- Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021
- Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021

## Y ffurflen bresenoldeb

Mae angen ffurflen bresenoldeb arnom fel y gallwn drefnu'r gwrandawiad yn briodol. Os nad ydych yn rhoi'r wybodaeth hon i ni, efallai y byddwn yn atal pobl rhag cymryd rhan yn y gwrandawiad neu ddim yn caniatáu iddynt fynd i mewn i'r ystafell. Os byddwch yn newid unrhyw fynychwyr, dylech ddweud wrthym ar unwaith. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pryd y bydd angen i chi ddychwelyd eich ffurflen bresenoldeb atom.

## Mynychwyr

Gall mynychwyr sy'n cael rhoi tystiolaeth wneud hynny yn Gymraeg neu'n Saesneg. Maent yn cynnwys y plentyn neu'r person ifanc, rhieni, cyfeillion achos, cynrychiolwyr a thystion. Rhowch wybod i ni pa iaith y maent am ei defnyddio drwy'r ffurflen bresenoldeb.

Gall rhai o'r mynychwyr hyn hawlio treuliau. Byddwn yn anfon canllawiau ar dreuliau a ffurflen hawlio atoch ar gais, ond mae copïau ar ein gwefan hefyd.

### Pobl ifanc

Os yw'r gwrandawiad yn ymwneud â pherson ifanc, gall y person ifanc fynychu'r gwrandawiad.

### Rhieni a'r plentyn

Os yw'r gwrandawiad yn ymwneud â phlentyn, gall y plentyn a'r rhieni (neu'r rhai sydd â chyfrifoldebau rhiant, fel y'u diffinnir gan Ddeddf Addysg 1996), fynychu'r gwrandawiad.

Gall y plentyn hefyd roi tystiolaeth, ond gall y panel ofyn iddo beidio â mynychu'r gwrandawiad cyfan os caiff ei gynnal wyneb yn wyneb. Trefnwch i rywun ofalu amdanynt pan nad ydynt yn ystafell y gwrandawiad. Nid ydym yn gallu gofalu am blant.

Byddwch yn gallu hawlio costau teithio i chi a'ch plentyn ddod i'r gwrandawiad. Os byddwch yn dod â rhywun i ofalu am eich plentyn, byddwch yn gallu hawlio costau teithio ar eu cyfer hefyd. Byddwn yn anfon canllawiau treuliau atoch a ffurflen hawlio ar gais, ond gallwch ddod o hyd i gopïau ar ein gwefan hefyd.

### Cyfeillion achos

Gall cyfaill achos plentyn fynychu'r gwrandawiad.

### Cynrychiolwyr

Os mai chi wnaeth yr apêl neu'r hawliad, gallwch gyflwyno'r achos eich hun. Gallwch hefyd wneud hyn gyda chymorth rhywun arall. Os oes well gennych, gallwch ddewis rhywun i'ch cynrychioli. Nid oes rhaid i'r cynrychiolydd fod â chymwysterau cyfreithiol.

Gallwch ofyn i fwy nag un person eich cynrychioli. Os hoffech gael ei gynrychioli gan fwy nag un person, dylent ysgrifennu a dweud wrthym pam cyn gynted â phosibl. Bydd y Llywydd yn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd ymlaen llaw. Gallwch hefyd ofyn i gadeirydd y tribiwnlys yn y gwrandawiad, ond dim ond mewn amgylchiadau eithriadol.

Os bydd rhywun yn eich cynrychioli neu'n eich helpu i gyflwyno'ch achos, bydd angen i ni wybod pryd y byddwch chi'ch dau ar gael. Chi sy'n gyfrifol am gadarnhau hyn, a chi hefyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod eich cynrychiolydd neu eich cynorthwyydd yn gwybod pryd y bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal. Ni fydd eich cynrychiolydd neu eich cynorthwyydd yn gallu hawlio unrhyw dreuliau gennym ni.

### Eiriolwr

Os hoffech i eiriolwr ddod i'r gwrandawiad i gyfleu barn a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc, rhowch eu manylion. Bydd eich eiriolwr yn gallu hawlio ei dreuliau teithio.

### Tystion

Mae tyst yn fynychwr a wahoddir i roi tystiolaeth yn unig. Nid oes rhaid i chi ddod ag unrhyw dystion o gwbl.

Gallwch ddod â hyd at ddau dyst i'r gwrandawiad. Bydd arnom angen eu henwau a'u cyfeiriadau. Os hoffech ddod â mwy na dau, dylech ysgrifennu a dweud wrthym pam cyn gynted â phosibl. Bydd y Llywydd yn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd ymlaen llaw. Gallwch hefyd ofyn i gadeirydd y tribiwnlys yn y gwrandawiad, ond dim ond mewn amgylchiadau eithriadol.

Chi sy'n gyfrifol am wirio argaeledd eich tystion cyn i ni bennu dyddiad. Chi hefyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod eich tystion yn gwybod pryd y bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal, a'u bod yn bresennol. Os nad yw eich tyst yn bresennol, efallai y bydd y tribiwnlys yn dal i glywed eich apêl.

Gall tystion hawlio costau teithio am fynd i'r gwrandawiad. Gallwch ofyn i ni am ganllawiau a ffurflenni hawlio, neu ddod o hyd iddynt ar ein gwefan.

Dylai adroddiad gan weithiwr proffesiynol sydd wedi asesu eich plentyn gynnwys yr holl wybodaeth rydych am i ni ei hystyried. Efallai na fydd angen i'r person hwnnw ddod i'r gwrandawiad fel tyst.

Os gofynnwch i rywun ddod i'r gwrandawiad, a'i fod yn gwrthod, gallwch ysgrifennu atom yn esbonio pam ei bod yn bwysig iddynt fod yn bresennol. Bydd angen i ni dderbyn hyn o leiaf 15 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Os ydym yn cytuno, byddwn yn cyhoeddi gwŷs tyst i chi eu rhoi i'r person. Yna bydd yn rhaid i'r person hwnnw fod yn bresennol, oni bai bod rhesymau da iawn pam na allant wneud hynny.

### Sylwedydd

Os hoffech i unrhyw un arall fod yn bresennol, gallwch wahodd un person fel sylwedydd. Ni all arsylwyr gymryd rhan yn y gwrandawiad, ond gallant fod yn yr ystafell. Ni fyddwn yn talu eu treuliau teithio.

Noder, gall y llywydd benderfynu na all rhai pobl ddod i'r gwrandawiad.

### Addasiadau rhesymol

Os oes gennych chi neu rywun sy’n dod i'r gwrandawiad gyda chi anabledd, neu os oes gennych unrhyw anghenion eraill a allai effeithio ar eich gallu i gymryd rhan ym mhroses y tribiwnlys, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl. Yna bydd y tribiwnlys yn nodi unrhyw addasiadau rhesymol y gellir eu rhoi ar waith. Gallai hyn gynnwys mynediad i gadair olwyn neu ddefnyddio dolen glyw.

### Cyfieithwyr neu arwyddwyr

Os ydych angen arwyddwr Iaith Arwyddion Prydain neu arwyddwr arall, rhowch wybod i ni.

Byddwn yn cynnal y gwrandawiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Gallwn hefyd gynnal gwrandawiad hyblyg, lle gellir defnyddio’r Gymraeg a’r Saesneg. Gallwch chi ddewis pa un sydd orau gennych. Rhowch wybod i ni cyn gynted ag sy’n bosibl.

Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf, gallwn drefnu bod cyfieithydd yno.

Byddwn ni yn trefnu ac yn talu am arwyddwyr a chyfieithwyr. Os nad ydych eisoes wedi gofyn am gyfieithydd neu arwyddwr, rhowch wybod i ni.